

Galw am weledigaeth well i'r amgylchedd

Yr Athro Gareth Wyn Jones ar yr ymateb i adroddiad y Panel Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig, sef yr IPCC, ar newid hinsawdd ...

SYNDOD! Mae'r dystiolaeth wyddonol am realiti newid hinsawdd a chynhesu byd eang yn cryfhau a'n dealltwriaeth o'r problemau enfawr sy'n ein hwynebu yn dwysau. Eto mae'r cyhoedd yn fwy a mwy amheus a di-hid.

Ni fydd holl waith manwl y Panel Rhyngwladol [yr IPCC] yn newid hyn.

Canlyniad y gagendor yw creu esgusodion i'n Llywodraethau ohirio gweithredu, sydd yn ei dro yn gwaethygu'n rhagolygon. Pwysig, felly, deall pam fod hyn yn digwydd a gofyn a oes modd newid y farn gyhoeddus.

Hunan-les diegwyddor sydd wrth wraidd ymddygiad y cwmnïau olew fel Exxon, barwniaid glo America, y Brodyr Koch, y sheiks a'r oligarchiaid. Eu cyfoeth sy'n ariannu'r *'think tanks'* a safleoedd gwe sy'n hau amheumon ac, o dro i dro, yn palu celwyddau; tacteg a fu'n llwyddiannus i'r cwmnïau tybaco am ddegawdau.

Dengys tystiolaeth yr IPCC bod yn rhaid ymatal rhag llosgi dros hanner y tanwydd hydrocarbon sydd eisoes wedi ei ddarganfod. Ond cyfrir y rhain fel asedau ar fantolen y cwmnïau ynni ac yn sylfaen i'w cyfoeth. Nid yw effeithiau dinistriol ei gweithgaredd (allanolion yn nhermau economeg) yn cyfri yn eu herbyn.

Ond, o dderbyn argymhellion yr IPCC, byddai gwerth stoc y cwmnïau yn disgyn, a'r marchnadoedd arian gyda nhw!

Tybiaf fod bron pawb yn sylweddoli mor ddyrys ydi ymgyrraedd at gynaliadwyedd ac ynni adnewyddol. Does dim atebion syml ar y silff!

Rhaid datblygu technolegau a diwydiannau newydd a gwneud dewisiadau anodd. Mae cyfundrefnau ein planed, morol ac atmosfferig, yn astrus a chymhleth. Nid yw'r newidiadau ynddynt yn digwydd yn rheolaidd nag yn unionsyth. Rhaid ceisio dehongli cyfundrefnau anwadal a chyfnewidiol.

Felly hawdd i *'hacks'* y cwmnïau ynni a'i tebyg, ddethol ac ymchwyddo 'ffeithiau' camarweiniol a'r problemau ymarferol.

Enghraifft berffaith yw'r cwmp aruthrol yn lâr Arctig yn haf 2012 a'i adferiad sylweddol yn 2013 - ffaith a hoeliodd sylw ecstatig gohebwy'r **Daily Mail** - er bod y tueddiad dros y degawdau i leihad cyflym yn parhau.

'ANFFAELEDIGRWYDD' Y FARCHNAD RYDD

Mae'r model economaidd Eingl-Americanaidd yn seiliedig ar anffaeledigrwydd y farchnad rydd a mawrygu fersiwn o unigolyddiaeth. Cyfiawnheir, felly, gwobrau anhygoel i fancwyr a thywysogion cyfalafiaeth. Prin fod lles cyffredinol yn cyfri dim. Honnir i'r llwyddiannus haeddu eu golud, a'r tlawd eu ffawd fel methiannau di-asgwrn-cefn.

Yn America goddefir lladd dros 30,000 y flwyddyn gan ynnau a 30,000 ar y ffyrdd - yn enw 'rhyddid' yr unigolyn. Pa obaith, felly, ymdrin â phroblem sy'n seiliedig ar 'hól troed' y cyfoethog nid y tlawd - anffodusion naill ai'n guddiedig neu'n anghofiedig?

Mae'n bwysig nodi bod y modelau Llychlynniaid ac Almaenig o gyfalafiaeth a'r 'farchnad gymdeithasol' yn wahanol ac ar flaen y gad yn datblygu ynni adnewyddol ac yn ymfrostio yng ngwerthoedd cymunedol.

Os am leihau'r bygythiad rhaid cael cytundebau byd eang i ffrwyno allyrron ac i gyfyngu ar ein dogn teg personol o allyrron - a derbyn 'gorfodaeth'!

I lawer sy'n coleddu dogma'r farchnad rydd, mae hyn yn drewi o sosialaeth ac yn 'gynllwyn' i ffrwyno entrepreneuriaeth ac i danseilio hawliau'r unigolyn. Rheswm felly i geisio pardduo'r wyddoniaeth a 'saethu'r negesydd'.

Tu hwnt i hyn oll rhaid ystyried y natur ddynol. Ni fu proffwydi gwae erioed yn boblogaidd ac mae'n 'credoau' am newid hinsawdd mor oriog â'r tywydd.

Yn ôl enillydd Gwobr Nobel am economi ymddygiadol, Daniel Kahneman, mae ein hymatebion greddf, cyflym i sefyllfaoedd yn arwynebol ac yn [or]-optimistaidd. Dibynnwn ar ein profiadau ac ar is-negeseuon o'n gorffennol i geisio creu synnwyr 'tw' o'r sefyllfa. Rydym yn gyndyn o feddwl yn ddwys.

Felly mae newid hinsawdd yn ymddangos: yn afreal, yn bell yn y dyfodol, allan o'n gafael fel unigolion (un mewn 7 biliwn), yn fygythiad i'n safon byw ac yn dibynnu ar wyddoniaeth ddyrys sy'n cael ei hamau yn y papurau poblogaidd.

Llawer mwy 'real' yw cost byw, sicrhau swydd (da), iechyd a gwyliau. Digon i'r dydd ei ddrygioni ei hun!

GWLEIDYDDION YN PORTHY GREDDFAU HUNANOL

Porthir ac ategir ein hamheumon, ein greddfau hunanol a'n diogi meddyliol gan rethreg ein gwleidyddion. Cwta bum mlynedd yw'r cylch etholiadol ac mae'r gyfundrefn yn ein gorfodi ni a'n gwleidyddion i ymladd am fanteision bach, megis ynni rhatach, **yn y presennol**. Nid yw'r ymdrechion i drafod y cefndir gwyddonol na rhybuddio am beryglon y dyfodol yn tycio.

Mae pobol fel y cyn-Ganghellor Ceidwadol, Nigel Lawson, yn darogan gwau o'r pegwn arall; os nad ydym yn parhau i ddarganfod a llosgi tanwydd hydrocarbon, nwy ffracio neu olew o'r Arctig, bydd ein cyfundrefn economaidd ryngwladol yn datgymalu a'n safon byw yn diflannu.

Mae, fel petai, cystadleuaeth rhwng dau fygythiad: un economaidd ac un amgylcheddol! Un garfan yn pwysleisio peryglon daearyddol a biolegol, yn gweld dynoliaeth fel stiwardiaid ar ein Daear ac yn rhan o'i wead a chwennych cyfundrefn fwy cynaliadwy - *Homo carcus*. Y llall yn gweld dyn fel *Homo economicus* - yn dibynnu ar y farchnad rydd, a'r gystadleuaeth ddidostur ac yn datgan nad oes gyfyngiadau ffisegol a daearegol i'n ffyniant. Dwy weledigaeth dra gwahanol!

A theg pwysleisio bod 'newid hinsawdd' megis rhagfynegiad neu negesydd i destun llawer ehangach, sef sut fath o gymdeithas rydym yn ewyllysio i'n dyfodol. Ydyn ni'n bodloni ar y 'mwy a mwy' o'r drefn bresennol neu ydym yn cwestiynu ei heffeithiau hirdymor - nid yn unig effeithiau amgylcheddol ond rhai cymdeithasol, economaidd, dynol a moesol?

Wrth gwrs mae elfennau o wirionedd yn y ddwy weledigaeth. Ni fyddau cwmp ariannol trychinebus yn help i neb. Mae rhyddid a chyfle a menter yn bwysig. Ond oni fydd codi lefel y môr metr neu ddwy, siawnsio ein cyflenwadau o fwyd a dŵr ei hun yn drychineb?

Rhaid, hefyd, cydnabod methiannau economaidd a chymdeithasol y model Eingl-Americanaidd sy'n canoli grym a chyfoeth, yn goddef osgoi trethiant a chyfrifoldeb, yn tansellio cymunedau yn ogystal â chynefinoedd, yn anwybyddu'r anghenus, yn creu anghyfartaledd dinistriol ac yn dibynnu ar dwf economaidd ac adnoddau diderfyn mewn byd cyfyngedig.

Y gobaith yw inni lunio llwybr amgenach sy'n symud, yn fwriadus, tuag at gymdeithas lai trahaus, mwy gofalus o'n cyd-ddyn a'n amgylchedd - dibynnu ar 'gwel' nid 'mwy'.

Hydref 10, 2013